OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3355 (Cy.294)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - *17 Rhagfyr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *21 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - - *12 Ionawr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A, 537B a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 12 Ionawr 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i'r ymadrodd "addysg ysgol annibynnol a ariennir" ("*funded independent school education*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 3(b);

mae i'r ymadrodd "anghenion addysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "special educational needs" gan adran 312 o Ddeddf 1996(**2**);

ystyr "asesiad athrawon" ("*teacher assessment*") yw asesiad gan athro neu athrawes o lefel cyrhaeddiad pwnc plentyn yn y pynciau a'r gweithgareddau sy'n rhan o'r cwricwlwm a addysgwyd i'r plentyn hwnnw;

(**1**) 1996 p.56. Cafodd adran 537A ei mewnosod gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a'i hamnewid gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Mewnosodwyd adran 537B gan adran 164 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 537A a 569 o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan adran 537B i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 180 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) Mae adran 312 wedi ei diwygio gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) a pharagraff 72 o Atodlen 30 iddi ac adran 195 a 215(1) o Ddeddf Addysg 2002, a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 18, a pharagraff 36 o Atodlen 21, i'r Ddeddf Addysg honno.

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") yw'r awdurdod addysg lleol yng Nghymru sy'n ariannu neu a fydd yn ariannu'r ddarpariaeth a ariennir;

ystyr "canlyniad" ("*result*") mewn perthynas ag unrhyw asesiad athrawon yw canlyniad yr asesu fel y mae wedi ei benderfynu a'i gofnodi gan athro neu athrawes;

ystyr "cofnod presenoldeb" ("*attendance record*") yw'r cofnod o bresenoldeb disgybl mewn ysgol yn ôl y gofrestr a gedwir yn unol ag adran 434 o Ddeddf 1996 a Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995(**3**);

ystyr "cymhwyster allanol a gymeradwywyd" ("*approved external qualification*") yw cymhwyster o fewn ystyr adrannau 96(5) a 97(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 a gymeradwywyd, ar yr adeg berthnasol, o dan adran 99 o'r Ddeddf honno(**4**) at ddibenion adrannau 96 a 97 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;

mae i'r ymadrodd "darpariaeth a ariennir" ("*funded provision*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 3;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "gwybodaeth am unigolion" ("*individual information*"), o ran addysg ysgol annibynnol a ariennir ac unedau cyfeirio disgyblion, yw gwybodaeth am ddisgyblion unigol, ac o ran addysg a ariennir, yw gwybodaeth am blant unigol;

ystyr "Rhif unigryw disgybl" ("*unique pupil number*") yw cyfuniad o rifau sydd ynghyd â llythyren neu lythrennau yn cael eu dyrannu i ddisgybl ac sy'n unigryw i'r disgybl hwnnw, drwy ddefnyddio fformiwla a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru; ac

ystyr "uned neu gredyd" ("*unit or credit*"), mewn perthynas â chymhwyster, yw modiwl neu ran o gwrs sy'n arwain at y cymhwyster hwnnw y gellir, pan fo wedi ei gwblhau'n llwyddiannus, ei gyfrif neu ei chyfrif ynghyd â modiwlau neu rannau eraill tuag at ennill y cymhwyster hwnnw.

Cymhwyso

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran—

(a) addysg a ariennir sy'n cael ei darparu o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol perthnasol;

(b) addysg sy'n cael ei darparu mewn ysgol annibynnol, ei threfnu a'i hariannu gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru yn unol ag adran 19 o Ddeddf 1996 (addysg y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "addysg ysgol annibynnol a ariennir"); ac

(c) addysg sy'n cael ei darparu mewn uned cyfeirio disgyblion a'i hariannu gan awdurdod lleol perthnasol,

ac yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at ddarpariaeth a ariennir yn gyfeiriad at y cyfryw addysg a ariennir, y cyfryw addysg ysgol annibynnol a ariennir a'r cyfryw addysg mewn uned cyfeirio disgyblion.

(**3**) O.S. 1995/2089, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 1997 (O.S. 1997/2624), Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/1109 (Cy.53)), Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3227 (Cy.308)), Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/2913 (Cy.210)).

(**4**) 2000 p.21. Diddymwyd is-adrannau (7) ac (8) o adran 99 gan erthygl 1(1) o Orchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 (O.S. 2005/3239 (Cy.244)).

Gofyniad i ddarparu gwybodaeth am unigolion i Weinidogion Cymru

4. Cyn pen 14 diwrnod o gael cais ysgrifenedig oddi wrth Weinidogion Cymru, rhaid i berson sy'n darparu darpariaeth a ariennir ddarparu i Weinidogion Cymru y cyfryw wybodaeth am unigolion y cyfeirir ati yn Atodlen 1 ag y gofynnir amdani.

Gofyniad i ddarparu gwybodaeth am unigolion i'r awdurdod lleol perthnasol

5.—(1) At ddibenion adrannau 537A(2)(b) a 537B(2)(b), mae'r awdurdod lleol perthnasol yn berson rhagnodedig.

(2) Cyn pen 14 diwrnod o gael cais ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol perthnasol, rhaid i berson sy'n darparu darpariaeth a ariennir ddarparu i'r awdurdod y cyfryw wybodaeth am unigolion y cyfeirir ati ym mharagraffau 1 i 6 o Atodlen 1 ag y gofynnir amdani.

Personau eraill y caniateir i wybodaeth am unigolion a gyflenwyd gael ei throsglwyddo iddynt hwy yn ychwanegol at yr awdurdod lleol perthnasol

6. At ddibenion adrannau 537A(3)(b) a 537(3)(b) o Ddeddf 1996, mae cwmnïau Gyrfa Cymru a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru o dan adrannau 2, 8 a 10 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973(**5**) yn berson rhagnodedig.

Personau ychwanegol y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth am unigolion iddynt

7.—(1) At ddibenion adrannau 537A(4)(b) a 537B(4)(b) o Ddeddf 1996, person rhagnodedig yw unrhyw un o'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol perthnasol;

(b) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales; ac

(c) y cwmnïau Gyrfa Cymru a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru o dan adrannau 2, 8 a 10 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973.

(2) Categori rhagnodedig at ddibenion adrannau 537A(4)(c) a 537B(4)(c) o Ddeddf 1996 yw categori o bersonau sy'n ymchwilio i gyflawniadau addysgol plant ac y mae arnynt angen gwybodaeth am unigolion at y diben hwnnw.

Personau ychwanegol y caiff coladyddion gwybodaeth ddarparu gwybodaeth am unigolion iddynt

8.—(1) At ddibenion adrannau 537A(5)(b)(i) a 537B(5)(b)(i) o Ddeddf 1996, person rhagnodedig yw—

(a) yr awdurdod lleol perthnasol;

(b) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

(2) Categori rhagnodedig at ddibenion adrannau 537A(5)(b)(ii) a 537B(5)(b)(ii) o Ddeddf 1996 yw categori o bersonau sy'n ymchwilio i gyflawniadau addysgol plant ac y mae arnynt angen gwybodaeth am unigolion at y diben hwnnw.

(**5**) 1973 (p.50). Amnewidiwyd adran 2 gan adran 25(1) o Ddeddf Cyflogaeth 1988 (p.19). Diddymwyd is-adrannau (4) a (6) o adran 8 gan Ran I o Atodlen 7 i Ddeddf Cyflogaeth 1989 (p.38). Amnewidiwyd adrannau 8 a 10 gan adran 45 o Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p.19).